

## Lleoliad

- Mae cynllun adnoddau coedwig Arfordir Gogledd Ceredigion, sydd ar hyd yr A487 i'r gogledd o Aberystwyth, yn cwmpasu ardal o 387 hectar. Mae'n cynnwys nifer o flociau coedwig llai ac mae'r mwyafrif ohonynt yn safleoedd coetir hynafol.
- Ceir mynediad i'r holl flociau coedwig naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r A487. Mae Allt Ddel ac Allt Dderw ger pentref Penrhyn-coch, Allt-y-Crib ger Tal-y-bont, a Lodge Park Woods a Choed Tyn-y-garth ger pentrefi Tre'r-ddôl a Ffwrnais.
- Mae'r holl flociau coedwig o fewn dalgylchoedd afon llai – afon Einion, afon Cletwr, afon Leri ac afon Clarach – y mae'r pedair yn dod i derfyn ym Mae Ceredigion.
- Mae holl ardal y cynllun adnoddau coedwig yn Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion.

## Crynodeb o'r amcanion

Cytunwyd ar yr amcanion rheoli canlynol er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu:

- Adfer pob safle coetir hynafol trwy ddileu coed conwydd yn raddol dros gyfnod, gan ddefnyddio Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith a gwaith rheoli teneuo coed lle bo'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys pob bloc coedwig yn y cynllun ac eithrio rhannau uwch Coed Tyn-y-garth. Llwyrdorri unrhyw glystyrau o rywogaethau goresgynnol o gonwydd sy'n weddill.
- Cynnal cyflenwad cynaliadwy o bren, sy'n cynnwys coed llydanddail a chonwydd.
- Buddsoddi mewn seilwaith coedwigoedd i ddarparu gwell mynediad er mwyn caniatáu ar gyfer amodau rheoli mwy amrywiol o fewn Safleoedd Coetiroedd Hynafol.
- Cynyddu cyfansoddiad y rhywogaethau brodorol a gwydnwch y goedwig trwy ganolbwyntio ar ffyrdd mwy amrywiol o ailstocio, gan gynnwys aildyfu'n naturiol a defnyddio amrywiaethau lleol o stociau o goed. Bydd rhai rhywogaethau a sbesimenau o goed conwydd nad ydynt yn oresgynnol yn parhau er mwyn helpu i amrywio cyfansoddiad rhywogaethau'r goedwig.
- Cynllunio i waredu unrhyw ardaloedd o goed llarwydd sylweddol sy'n weddill o dan y Strategaeth Lleihau Coed Llarwydd.

- Creu strwythur coedwigaeth parhaol a mwy amrywiol trwy amrywio ac ehangu'r cynefinoedd coetir brodorol ac ar lannau afon yn y goedwig, gyda rhagor o goed hynafol, trwy gynyddu maint y gwarchodfeydd naturiol a nifer y coed sy'n cael eu cadw'n hirdymor, a thrwy ddatblygu clytwaith o gynefinoedd agored bach sy'n cysylltu â ffyrdd coedwig a rhodfeydd.
- Cynyddu nifer y coed marw mewn Safleoedd Coetir Hynafol.
- Gwella cysylltedd cynefinoedd coetir, yn enwedig ar hyd y rhwydweithiau coetir lleol yn Nyffryn Dyfi.
- Cynnal ac ehangu'r cynefinoedd coetir a'r cynefinoedd ar lannau afon ar gyfer rhywogaethau a warchodir, megis pathewod a dyfrgwn.
- Gwella amrywiaeth strwythurol y ddau safle coetir dynodedig, sef Coed Cwm Cletwr a Choed Cwm Einion, wrth gynnal amodau amgylcheddol ar gyfer y cymunedau o fflora prin, trwy reoli'r goedwig yn ofalus.
- Rheoli unrhyw rywogaethau goresgynnol, megis rhododendron wyllt, a gwaith adfer coed conwydd mewn ardaloedd o goetir hynafol ac ar safleoedd dynodedig, megis Coed Cwm Cletwr a Choed Cwm Einion.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wrth gynnal gweithgareddau gweithredol trwy ddilyn yr arfer gorau fel y'i nodir yn 'Safon Coedwigaeth y DU – Canllawiau Coedwigaeth a Dŵr' i warchod ansawdd y dŵr a'r ecosystemau dŵr croyw yn y goedwig.
- Defnyddio Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith pan fydd yn bosibl, er mwyn helpu i leihau'r effaith ar ansawdd y dŵr a lleihau'r effeithiau gweledol ar y dirwedd.
- Cadw Heneb Gofrestredig Caer Allt-Goch a safleoedd mwyngloddio yng Nghoed Allt-y-grib yn glir rhag coed a phrysgwydd ac yn ymgynghori â CADW ar eu dull rheoli.
- Gwarchod pob heneb a nodwedd hanesyddol yn Ardal Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion wrth gynnal gweithrediadau rheoli coedwig.
- Gwella gwerth cynefinoedd tirwedd y coedwigoedd a'u gwerth gweledol a synhwyrdd trwy gynyddu'r gyfran o goed llydanddail yn y coedwigoedd.
- Ystyried effaith weledol y gweithrediadau rheoli a'r cynigion hirdymor yn rhannau uwch Coed Tyn-y-garth ar y golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri.

- Ymchwilio i gyfleoedd i wella'r dirwedd a'r coetir o gwmpas Parc Ceirw Lodge Park, sy'n adeilad rhestredig Gradd II.
- Cynnal a gwella'r cyfleoedd hamdden i gerddwyr, beicwyr a marchogwyr ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus a ffyrdd poblogaidd yn y goedwig.
- Cynnal hawliau tramwy cyhoeddus ar unrhyw lwybrau y mae gweithrediadau cynaeafu yn effeithio arnynt, megis cwmpo, teneuo ac ailstocio coed. Caiff unrhyw hawl dramwy gyhoeddus y plannir drosti am resymau hanesyddol ei hadfer yn ôl y map diffiniol.
- Ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio â thirfeddianwyr cyfagos, rhanddeiliaid a phrosiectau, megis 'Prosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE' yng Nghoed Cwm Einion, er mwyn datblygu blaenoriaethau a chynlluniau a fydd yn gwella gwydnwch hirdymor a chysylltedd yr ecosystemau yn y dirwedd ehangach.
- Parhau i ymchwilio i'r potensial am brosiectau ynni gwynt yn Ardal Chwilio Strategol D TAN 8, sydd ychydig i'r dwyrain o'r blociau coedwigaeth.